



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Rhyd-Y-Grug
Aberfan
Merthyr Tudful
CF48 4NT**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2017

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Rhyd-y-Grug ym mhentref Aberfan yn awdurdod lleol Merthyr Tudful. Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion Aberfan ynghyd â nifer o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2. Mae 265 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 38 oed meithrin amser llawn a 6 arall sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 10 dosbarth, gydag un ohonynt â disgyblion oed cymysg.

Tua 16% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol (19%). Tua 23% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod ychydig o dan 10% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2010 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Rhyd-y-Grug yn 2016-2017 yw £3,559. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful yw £4,396 a'r lleiafswm yw £3,365. Mae Ysgol Gymraeg Rhyd-y-Grug yn y 19eg safle o'r 22 ysgol gynradd ym Merthyr Tudful o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda yn ystod eu cyfnod yno
- medrau llafar, gwrando a darllen bron pob disgybl yn datblygu'n dda
- bron pob un yn ysgrifennu'n aeddfed at wahanol bwrpasau ac ar draws ystod o bynciau a chyd-destunau yn y ddau gyfnod allweddol, o ystyried eu hoed a'u gallu
- bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi
- ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn arbennig o dda
- bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson
- safon yr addysgu yn gadarn dda
- staff yn hyrwyddo amgylchedd dysgu hamddenol, symbylus, cyfeillgar a gweithgar
- y gymuned yn un ofalgar, gynhwysol a chefnogol iawn sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu'r ysgol yn amgylchedd addysgol, symbylus, cefnogol a heriol i'w disgyblion
- y dirprwy, aelodau eraill yr uwch dîm rheoli a gweddill y staff yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol
- y gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn
- arweinwyr wedi ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol priodol dros amser
- aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau strategol yn gydwytbodol, gan ddwyn arweinwyr i gyfrif yn briodol
- ei gweithdrefnau hunanarfarnu yn gadarn ac effeithiol
- ei chynllun datblygiad yn cynnwys blaenoriaethau priodol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a safonau a lles disgyblion
- ganddi nifer o bartneriaethau strategol gwerthfawr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a lles y disgyblion
- y gyllideb yn cael ei defnyddio a'i monitro yn effeithlon

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio mwy o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A2 Sicrhau bod athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu defnydd o holl elfennau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm
- A3 Sicrhau bod disgwyladau holl athrawon cyfnod allweddol 2 bob amser yn ddigon uchel i ddatblygu medrau mathemategol a gwyddonol y disgyblion uwch eu gallu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, er mai lleiafrif ohonynt sy'n cychwyn â medrau llythrennedd a rhifedd sy'n cyfateb i'r disgwyl.

Mae medrau llafar a gwrando bron pob disgybl yn datblygu'n dda. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn synhwyrol i gyfarwyddiadau a chwestiynau. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn sgwrsio'n glir yn y Gymraeg mewn amrywiol sefyllfaoedd o oed cynnar ac yn datblygu geirfa a chystrawen gynyddol gymhleth wrth iddynt fagu hyder. Mae medrau llafar Saesneg bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda.

Mae medrau darllen bron pob disgybl yn datblygu'n gadarn. Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn darllen ystod eang o destunau yn gynyddol hyderus a chywir yn y Gymraeg. Maent yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus ac yn dechrau darllen gyda mynegiant clir. Mae llawer o ddisgyblion ar frig y Cyfnod Sylfaen yn trafod cynnwys eu hoff lyfrau a straeon yn aeddfed, gan roi rhesymau cadarn dros eu dewis. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn gynyddol aeddfed yn y ddwy iaith o ystyried eu hoed a'u gallu. Mae'r mwyafrif yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys cyfeirlyfrau a'r we.

Mae bron pob un yn ysgrifennu'n aeddfed at wahanol bwrpasau ac ar draws ystod o bynciau a chyd-destunau yn y ddau gyfnod allweddol, o ystyried eu hoed a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol a chynyddol gywir yn y Gymraeg. Maent yn ysgrifennu disgrifiadau lliwgar o'r hydref a'r gaeaf, cofnod o'u taith i Sain Ffagan, cerdyn post i'w rhieni a disgrifiad diddorol o lun. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn atalnodi'n gynyddol gywir ac yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Maent yn ysgrifennu darnau sy'n gynyddol estynedig yn y ddwy iaith, sy'n cynnwys disgrifiad o gymeriad o nofel, cerdd acrostig, sgript, portread o ddyn a llythyr wrth Branwen at Bendigeidfran wrth astudio'r chwedl honno o'r Mabinogi.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn datblygu eu medrau rhif yn gadarn i safon sy'n briodol i'w hoed. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn dosbarthu gwrthrychau neu'n cyfateb rhif i wrthrych yn hyderus gan ddefnyddio offer priodol. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn galw ffeithiau rhif i gof yn gyflym ac yn cymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu'n flaenorol yn hyderus mewn sefyllfaoedd mathemategol sy'n newydd iddynt. Mae bron pob disgybl ar frig y Cyfnod Sylfaen yn darllen yr amser yn hyderus ar amserlen syml, i arddangos, er enghraifft, diwrnod cyffredin Shompa o'r India a chymharu hwnnw gydag amserlen eu diwrnod arferol nhw.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau rhesymu priodol mewn ychydig o feysydd cwricwlaidd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion Blwyddyn 3 yn dehongli data yn seiliedig ar yr amser mae'n ei gymryd i barasiwt lanio mewn arbrawf gwyddonol ynglŷn â gwrthiant aer. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth, sef graff llinell i gyfleu gwahaniaeth mewn tymheredd. Mae mwyafrif y disgyblion ar frig yr ysgol yn amcangyfrif mäs a hyd gwahanol wrthrychau yn lled gywir. Maent yn datrys problemau yn synhwyrol gan ystyried yr hyn y maent yn ei wybod yn barod er mwyn dod o hyd i ateb. Ychydig o'r disgyblion mwy galluog sy'n cyflawni tasgau ymestynnol ar lefelau sy'n uwch na'r disgwyl, a chyfyng yw defnydd y disgyblion hŷn o rifedd mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio llechi electronig ac offer arall yn hyderus at wahanol ddibenion. Mae llawer yn rheoli tegau electronig yn grefftus ac yn cofnodi eu gwaith ar gyfrifiadur ar lefel sy'n addas i'w hoed.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, cynhyrchu cyflwyniadau digidol, ffurfio graffiau ac ymchwilio ar y rhyngwrwyd yn gynyddol hyderus mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ychydig sy'n defnyddio taenlenni yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau.

Gan fod cyfran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi amrywio yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi newid grŵp meincnod ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn golygu nad yw'r data meincnod, fel y cyfryw, yn gwbl ddbynadwy.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyfran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y deiliant disgwyliedig ac uwch wedi dangos cynnydd nodedig dros y pedair blynedd ddiwethaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, ar y deilliannau disgwyliedig, mae safle'r ysgol wedi codi o'r 50% is i'r 50% uwch mewn llythrennedd ac o'r 25% isaf i'r 50% uwch mewn datblygiad mathemategol. Ar y deilliannau uwch na'r disgwyl, mae safle'r ysgol wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 50% uwch mewn llythrennedd a rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyfran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y deilliannau disgwyliedig yn gyffredinol wedi dangos tuedd o gynnydd dros y pedair blynedd ddiwethaf ym mhob pwnc craidd. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae safle'r ysgol wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Ar y lefelau uwch na'r disgwyl, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio ond yn dangos tuedd cyffredinol ar i lawr dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae safle'r ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Saesneg a gwyddoniaeth a rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn Cymraeg a mathemateg.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol.

Mae ychydig o wahaniaeth rhwng perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill ar y deilliannau disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen. Wrth ystyried y deilliannau disgwylidig, mae canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn aml wedi cyflawni'n uwch na'r gweddill dros gyfnod o bedair blynedd. Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yn y naill gyfnod na'r llall ar y lefelau uwch.

Er bod patrwm o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y ddau gyfnod allweddol dros bedair blynedd, mae'r ysgol wedi targedu hyn fel blaenoriaeth strategol ac mae'r gwahaniaeth yn lleihau yn raddol.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae ymddygiad bron pob un yn arbennig o dda yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais iawn, yn groesawgar ac yn dangos parch a chwarteisi tuag at ei gilydd a thuag at staff ac ymwelwyr.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion wybodaeth gadarn am bwysigrwydd bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff er mwyn cadw'n heini. Maent yn ymwybodol o'u hawliau i fod yn ddiogel ac at bwy i droi os ydynt yn pryderu neu angen cymorth.

O ganlyniad i anogaeth gref yr ysgol, mae bron pob disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson ac maent yn cyrraedd yn brydlon. Dros dair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae canran presenoldeb yr ysgol, o'i gymharu ag ysgolion tebyg, wedi gwella'n sylweddol, gan godi safle'r ysgol o'r 25% isaf i'r 50% uwch yn 2015. Fodd bynnag, o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol y llynedd, bu ychydig o ostyngiad yn y gyfradd hon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i lwyddo. Maent yn dangos ymroddiad cadarn tuag at ddysgu ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau ar dasgau am gyfnodau estynedig yn llwyddiannus. Mae cyfranogiad y rhan fwyaf yn eu gwersi yn effeithiol ac maent yn ymateb yn briodol i'r ychydig ddewis y maent yn ei gael ar yr hyn y maent am ei ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae llawer yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco bwyllgor yn chwarae rôl flaengar yn yr ysgol. Maent yn casglu syniadau cyd-ddisgyblion yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl ar eu gweithgareddau mewn gwasanaethau yn llwyddiannus. Mae'r aelodau'n trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n dda ar gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at weithgareddau amrywiol yn y gymuned leol. Er enghraifft, mae cymryd rhan mewn cyngerdd diweddar i gofio trychineb Aberfan wedi atgoffa'r disgyblion o'u treftadaeth ac am bwysigrwydd y gymuned leol yn eu bywydau bod dydd.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r staff yn cynllunio'n effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu eang a diddorol i'r disgyblion, sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Maent yn cynllunio amrywiaeth ddiddorol o ymweliadau addysgol a chyfleoedd i ddisgyblion wrando ar a holi ymwelwyr i'r ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi eu profiadau dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, trwy ymweld â Chanolfan Egni Aberddawan, mae'r disgyblion wedi dysgu llawer am gynaliadwyedd. Mae mynychu'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol buddiol, er enghraifft clwb yr Urdd a chlybiau chwaraeon a garddio, hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi profiadau dysgu llawer o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio a chyflwyno egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws ystod o bynciau yn y ddwy iaith ac, o ganlyniad, gwnânt gynnydd da. Yn ogystal, mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd a chyfoethog i ddatblygu medrau llafaredd rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddatblygu holl fedrau rhifedd na TGCh y disgyblion, wedi datblygu'n llawn yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy astudio hanes lleol, chwedlau, a gwaith beirdd ac arlunwyr o Gymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy y disgyblion yn dda iawn. Mae'r eco bwyllgor yn hyrwyddo ailgylchu ac arbed ynni yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Er enghraifft, drwy astudio gwledydd tramor, a'r ffordd o fyw ynddynt, mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn datblygu'n dda.

Addysgu: Da

Mae safon yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith, yn seiliedig ar barch a chwarteisi, yn bodoli rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr a rhwng oedolion a disgyblion ym mhob dosbarth. Mae hyn yn hyrwyddo amgylchedd dysgu hamddenol, cyfeillgar a gweithgar. Mae llawer o'r athrawon yn fodel iaith dda. Maent yn holi cwestiynau agored yn effeithiol er mwyn deall yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod cyn cyflwyno gwybodaeth a chysyniadau newydd iddynt. Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer y disgyblion, yn arbennig mewn iaith a llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau ychydig iawn o athrawon cyfnod allweddol 2 bob amser yn ddigon uchel ar gyfer datblygu medrau mathemategol na gwyddonol disgyblion uwch eu gallu.

Mae'r gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd yn gadarn ac yn galluogi'r athrawon i adnabod yr hyn mae disgyblion yn ei ddeall ac i'w cynorthwyo i gynllunio'r camau nesaf ar eu cyfer. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson, gan roi

adborth defnyddiol ar lafar neu'n ysgrifenedig am yr hyn maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae gweithdrefn yr ysgol i gofnodi bod disgyblion yn deall y sylwadau hyn, trwy roi marc ôl bys ar ddiwedd y darn gwaith, yn effeithiol iawn. Yn yr arferion gorau, mae'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfle priodol i ymateb i'w sylwadau gan ail-ddrafftio darnau o'u gwaith a gwella'i ansawdd. Mae athrawon yn nodi meini prawf llwyddiant unrhyw dasgau yn glir a chaiff disgyblion gyfleoedd addas i fyfyrion ar eu hymdrechion ac asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae hyn yn eu hannog i ystyried a deall yn well yr hyn sydd ei angen er mwyn iddynt lwyddo.

Mae gan yr ysgol weithdrefn effeithiol ar gyfer gosod targedau i gynorthwyo'r disgyblion i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r targedau hyn ac mae bron pob un yn awyddus i'w cyrraedd yn rheolaidd. Mae hyn yn eu hannog i wneud cynnydd da yn barhaus.

Mae'r adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae ganddi bolisiau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol a rhoddir cyfleoedd priodol iddynt fyfyrion ar faterion perthnasol. Ceir gweithdrefnau llwyddiannus iawn i hybu ymddygiad cadarnhaol ac i annog disgyblion i barchu ei gilydd ac oedolion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys y gwasanaethau lles addysg, therapydd lleferydd, a thîm ymddygiad yr awdurdod lleol i gefnogi anghenion unigolion. Mae'r ysgol yn bodloni anghenion disgyblion yn dda drwy dargedu cymorth arbenigol a chefnogaeth bwrsasol iddynt pan fo'u hangen. Enghraifft dda o hyn yw ymweliadau rheolaidd yr heddlu i hyrwyddo'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn y gymuned ac ar y rhyngrwyd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau ac ymyraethau effeithiol i'w cefnogi. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn briodol ac yn cynnwys targedau a champau gweithredu clir. Fodd bynnag, nid oes bob amser gyswllt digon penodol rhwng y targedau hyn a thargedau cyffredinol y disgybl mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r cynlluniau yn cael eu hadolygu'n dymhorol gan yr athrawon a'r athrawes sydd â chyfrifoldeb dros anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni a disgyblion yn briodol wrth lunio'r cynlluniau hyn.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar, lle mae holl aelodau'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu trin yn deg a chyda pharch. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gwyddant at bwy i droi am gyngor neu gefnogaeth pan fo'u hangen.

Mae'r ysgol yn cynnig mynediad cyfartal i bob disgybl i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol ac mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr yn bodoli i ddelio'n effeithiol ag unrhyw ragfarn neu achos o fwlio, pe bai'n codi.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, gan gynnwys ystod fuddiol o adnoddau TGCh. Mae'r ardaloedd allanol yn eang, ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu yn yr awyr agored.

Mae'r ysgol yn arddangos gwaith disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a'r manau cyhoeddus yn gelfydd, sy'n rhoi bri ar eu cyflawniadau. Mae'r rhain yn ychwanegu at yr ethos cartrefol a chroesawgar sy'n bodoli yno.

Mae safonau glanweithdra'n uchel a chaiff yr adeilad a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r safle a'r adeilad yn ddiogel.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu'r ysgol yn amgylchedd addysgol, symbylus, cefnogol a heriol i'w disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn effeithiol i'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni.

Caiff y pennaeth ei gefnogi'n effeithiol gan y dirprwy ac aelodau eraill yr uwch dîm rheoli. Mae aelodau'r tim hwn yn cyflawni eu cyfrifoldebau arwain yn llwyddiannus. Mae'r strwythur staffio yn glir ac mae gan bob aelod staff ddisgrifiad swydd priodol, a llinellau atebolrwydd pendant.

Mae gweithdrefnau rheoli'r ysgol yn drefnus gyda chyfarfodydd a gweithgareddau strategol rheolaidd yn sicrhau bod arweinwyr a staff yn trafod materion pwysig sy'n ymwneud â chodi safonau a lles disgyblion. Mae'r pennaeth yn rhannu gwybodaeth yn gyson gyda'r staff, ac o ganlyniad, maent yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddysgu.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn. Mae'r amcanion yn briodol, ac yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau datblygu'r ysgol ynghyd â gofynion proffesiynol unigol y staff.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'n cyflwyno strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae'n cynorthwyo ysgolion eraill o fewn y consortiwm rhanbarthol i ddatblygu medrau llythrennedd Cymraeg disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, yn arbennig medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau strategol yn gydwybodol. Maent yn meddu ar wybodaeth drylwyr am ddata perfformiad ynghyd â chryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu, sy'n eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol. Mae eu hymweliadau cyson â'r ysgol, a'u cyswllt â dosbarthiadau penodol, yn gymorth gwerthfawr iddynt fedru arfarnu ei gwaith yn deg a chyfrannu'n effeithiol at y gweithdrefnau cynllunio strategol.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn gadarn ac effeithiol. Maent yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu yn dda. Mae'r amserlen o weithgareddau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ystyried a dadansoddi tystiolaeth eang ynglŷn â chyflawniad disgyblion yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn cywain barn y disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni yn rheolaidd, gan ystyried unrhyw awgrymiadau ac ymateb yn briodol iddynt. Enghraifft dda o sut mae athrawon wedi ymateb i awgrym gan ddisgyblion yw'r ffordd y maent bellach yn rhoi cyfle iddynt amrywio partneriaid trafod mewn gwersi. Mae'r gweithgareddau monitro yn cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, dadansoddi data a gwrando ar ddysgwyr. Mae deilliannau'r weithdrefn yn sail bwysig i drafodaethau mewn cyfarfodydd staff a chyfarfodydd llywodraethwyr ac yn aml yn arwain at gynllunio gwelliannau mewn meysydd pwysig yn syth pan fydd angen. Mae hyn yn galluogi arweinwyr, llywodraethwyr a staff i adnabod yr ysgol yn dda ac i bennu blaenoriaethau priodol ar gyfer y cynllun datblygiad.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r gweithdrefnau monitro, yn arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol.

Mae cyswllt amlwg yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygiad. Mae'r cynllun yn gynhwysfawr ac yn nodi amcanion penodol, ynghyd â chamau gweithredu manwl, a meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddeilliannau disgyblion. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y cynllun yn rheolaidd ac yn addasu a gweithredu'n briodol yn unol â'r angen.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol gwerthfawr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda rhieni. Mae'r athrawon yn cynnal sesiynau gwerthfawr i gyflwyno'u hunain a'r dosbarth i rieni yn fuan iawn yn y

flwyddyn ysgol newydd. Maent hefyd yn cynnal nosweithiau agored buddiol i drosglwyddo gwybodaeth am themâu'r tymor a rhoi cyfleoedd i rieni drafod cynnydd eu plant. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant yn llwyddiannus. Mae'r gymdeithas rieni yn weithgar ac yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau ychwanegol er budd y disgyblion.

Mae cysylltiadau llwyddiannus iawn yn bodoli rhwng yr ysgol ag ysgolion lleol eraill i rannu arfer dda mewn meysydd pwysig. Trwy'r partneriaethau hyn, mae staff yn darparu gweithgareddau effeithiol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at fireinio gweithdrefnau rheolaethol a chwricwlaidd yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys athrawon yn arsylwi ar wersi ei gilydd er mwyn gwella'u harferion addysgu. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ei chydabod fel hwb chwricwlaidd er mwyn hyrwyddo medrau darllen disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen disgyblion o fewn yr ysgol ac o fewn ysgolion eraill.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol a'r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar weithdrefnau ysgol er mwyn sicrhau bod cysondeb wrth lefelu cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth werthfawr gydag ymarferwyr y cylchoedd meithrin lleol, trwy rannu arbenigedd athrawon y Cyfnod Sylfaen gyda nhw er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a chytundeb mewn disgwyliadau. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf.

Mae'r trefniadau trosglwyddo gyda'r ysgol uwchradd yn gadarn ac mae rhieni a disgyblion yn elwa o ymweliadau a gweithgareddau cyson, sy'n rhan greiddiol o'r cynlluniau trosglwyddo. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym wrth symud i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol a gwasanaethau cefnogi amrywiol yr awdurdod lleol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion a'r teuluoedd sydd ei hangen.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn elwa'n ariannol o gronfeydd lleol sy'n gymorth i brynu adnoddau ychwanegol ac i sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i fynyachu gweithgareddau allgyrsiol. Enghraifft dda o hyn yw sut mae'r ysgol yn defnyddio buddsoddiad ariannol i greu a rhedeg clwb gwaith cartref ynghyd â chludiant adref i ddisgyblion. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at godi safonau a gwella lles disgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i gyflwyno'r chwricwlwm yn effeithiol. Mae'r pennaeth wedi lleoli'r staff yn synhwyrol a dosrannu cyfrifoldebau'n addas i fodloni anghenion penodol yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o gynorthwywyr brwdfrydig a chydwybodol sy'n darparu cymorth gwerthfawr i athrawon a disgyblion. Mae'r holl aelodau staff yn cefnogi'i gilydd yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol er budd y disgyblion.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol athrawon a chynorthwyr yn llwyddiannus. Mae'r amcanion yn gysylltiedig â blaenoriaethau cynllun datblygiad yr ysgol ynghyd ag anghenion datblygu penodol pob aelod staff.

Mae'r ysgol yn gweithio'n hwylus o fewn adrannau dysgu ac yn rhannu arbenigedd yn llwyddiannus gyda'i gilydd er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae athrawon yn defnyddio'u cyfnodau digyswllt yn effeithlon er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth yn gyson. Mae hyn yn arwain at welliannau yn yr addysgu ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio a'i monitro yn effeithlon er mwyn sicrhau cynnydd tuag at flaenoriaethau datblygu'r ysgol. Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i godi safonau llythrennedd, rhifedd a lles grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r gwariant wedi ei ddsrannu'n effeithiol i ddarparu cefnogaeth i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac i'w hannog i fynychu clybiau a gweithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu deilliannau a'u lles.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6752346 - Ysgol Gymraeg Rhyd-y-grug

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	254
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	16.0
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	26	26	28	41
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	80.8	92.3	89.3	95.1
Chwarter meincnod	3	1	2	2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	26	26	28	41
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	84.6	92.3	92.9	95.1
Chwarter meincnod	3	2	2	2
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	15.4	30.8	25.0	36.6
Chwarter meincnod	3	3	3	2
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	26	26	28	41
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	80.8	92.3	89.3	95.1
Chwarter meincnod	4	2	3	2
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	15.4	34.6	28.6	39.0
Chwarter meincnod	4	2	3	3
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	26	26	28	41
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	92.3	92.3	92.9	97.6
Chwarter meincnod	4	3	4	3
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	38.5	34.6	28.6	53.7
Chwarter meincnod	3	3	4	4

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deiliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6752346 - Ysgol Gymraeg Rhyd-y-grug

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

254

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

16.0

Grŵp PYD

2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	10	21	15	16
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	70.0	90.5	100.0	93.8
Chwarter meincnod	4	2	1	2
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	21	15	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	70.0	90.5	100.0	93.8
Chwarter meincnod	4	2	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	30.0	47.6	40.0	25.0
Chwarter meincnod	3	1	3	4
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	21	15	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	70.0	90.5	100.0	93.8
Chwarter meincnod	4	2	1	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	30.0	47.6	40.0	25.0
Chwarter meincnod	2	1	2	3
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	21	15	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	70.0	90.5	100.0	93.8
Chwarter meincnod	4	3	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	40.0	52.4	40.0	37.5
Chwarter meincnod	2	1	2	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	10	21	15	16
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	70.0	90.5	100.0	93.8
Chwarter meincnod	4	3	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	30.0	52.4	40.0	25.0
Chwarter meincnod	3	1	2	4

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	96	96 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	96	96 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	96	94 98%	2 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	96	96 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	96	88 92%	8 8%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	96	92 96%	4 4%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	96	96 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	96	93 97%	3 3%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	96	95 99%	1 1%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	96	88 92%	8 8%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	96	91 95%	5 5%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	96	93 97%	3 3%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	21	17 81%	2 10%	0 0%	2 10%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	21	17 81%	3 14%	0 0%	1 5%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	20	14 70%	6 30%	0 0%	0 0%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	21	14 67%	5 24%	1 5%	1 5%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	20	13 65%	7 35%	0 0%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	20	15 75%	4 20%	0 0%	1 5%	1	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	21	14 67%	5 24%	2 10%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	19	12 63%	7 37%	0 0%	0 0%	2	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	21	15 71%	4 19%	1 5%	1 5%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	20	11 55%	8 40%	0 0%	1 5%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	38%	2%	0%		
My child is safe at school.	20	17 85%	3 15%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	16	9 56%	6 38%	0 0%	1 6%	4	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	21	11 52%	7 33%	1 5%	2 10%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	9%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	21	15 71%	4 19%	1 5%	1 5%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	19	12 63%	5 26%	1 5%	1 5%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	20	12 60%	7 35%	0 0%	1 5%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		57%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	12	7 58%	4 33%	1 8%	0 0%	7	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	21	14 67%	5 24%	2 10%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		54%	39%	6%	1%		
The school is well run.	20	17 85%	2 10%	0 0%	1 5%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mr Huw Watkins	Arolygydd Cofnodol
Mr Gwyn Williams	Arolygydd Tîm
Mr Jeffrey Wyn Davies	Arolygydd Lleyg
Mr Aled Rhydian Lloyd	Arolygydd Cymheiriaid
Mr Alun Williams (Pennaeth)	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.